# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 5ED HYDREF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 27 Medi 2021)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Llywelyn Rhys | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| *I'w gadarnhau* | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Chris Fisher | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2021 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 23

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 8 Mawrth, 2022.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MERCHER, 10 MAWRTH 2021

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Llywelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) a Will Walker Jones (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub Cricieth).

**SYLWEDYDDION:** Y Cynghorwyr Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned) a Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/21.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr) ac Ian Roberts (Cynrychiolydd Buddiannau Diwydiannol).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020, fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2021.

Gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ar y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd i'r gwasanaeth.

Nododd y Prif Swyddog Morwrol fod amcangyfrif o gyllidebau'r harbwr o 1/4/20 hyd at 31/3/21 wedi'i anfon at yr aelodau yn ddiweddar iawn, a manylodd ar y sefyllfa gyfredol gan nodi:-

- Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd gofyn bod y Cyngor yn ystyried lleihau ffioedd a chostau i dalwyr angorfeydd, gan fod balans i'w daro rhwng cadw cwsmeriaid at y dyfodol, neu eu colli yn gyfan gwbl i harbyrau eraill.
- Y dymunai ddiolch i'r aelodau lleol am y gefnogaeth a gafwyd i leihau costau i'r cwsmeriaid 30% yn ystod y cyfnod Mai – Gorffennaf y llynedd.
- Nad oedd yn opsiwn peidio codi unrhyw ffi o gwbl ar gwsmeriaid yn ystod y cyfnod yma, gan fod costau cynnal yr harbwr yn parhau.
- Bod manylion y cyllidebau unigol fel a ganlyn:-

| Grŵp | Disgrifiad | Cyllideb £ | Gwariant hyd at 31/03/21 £ | Gor(Tan) Wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| Staff | Costau Staff | 60,180 | 60,899 | 719 |
| Eiddo | Tiroedd ac Eiddo | 23,140 | 10,907 | (12,233) |
| Trafnidiaeth | Cwch a Cherbydau | 640 | 640 | 0 |
| Offer a Chelfi | Offer a Chelfi | 9,930 | 12,252 | 2,322 |
| Incwm | Incwm Harbwr | (74,580) | (47,645) | 26,935 |
| Cyfanswm | Cyfanswm | 19,310 | 37,052 | 17,742 |

- Oherwydd y pandemig, a'r lleihad yn nifer y cychod yn angori yn yr harbwr llynedd, bod incwm yr harbwr tua £27,000 yn is na'r targed am y flwyddyn.
- Mai'r targed ar ddiwedd y flwyddyn, gan gymryd incwm a gwariant i ystyriaeth, oedd bod Harbwr Porthmadog yn costio £19,000 i'r trethdalwyr, ond yn anffodus, oherwydd y diffyg incwm, roedd y gwahaniaeth yn £37,000 gan y byddai'r harbwr yn gorwario tua £18,000 yn y flwyddyn ariannol hon.
- Mai dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd i'r gwasanaeth adrodd ar sefyllfa ariannol mor ddifrifol yn yr harbwr, ac roedd 2021 yn debygol o fod yn flwyddyn anodd hefyd, o ystyried yr ansicrwydd mawr yn y diwydiant morwrol.
- Bod y pontwns yn gallu cynorthwyo'r sefyllfa gan eu bod yna drwy gydol y flwyddyn.
- Bod Ffioedd a Thaliadau'r Harbwr 2021/22 bellach wedi'u hawdurdodi gan y swyddogion ac arweinyddion y Cyngor ar gyfer eu cyhoeddi.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Nododd yr Harbwrfeistr fod staff yr harbwr yn dymuno anfon eu cofion at y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, yn dilyn ei anhwylder diweddar. Cytunodd y Cadeirydd i anfon neges at yr aelod, ar ran bawb, yn aelodau a swyddogion, yn dymuno iddo wellhad llwyr a buan.

Nododd yr Harbwrfeistr ymhellach:-

- Bod y Bwi Tramwyo wedi mynd allan ddiwedd yr wythnos ddiwethaf, a bod Bwi rhif 2 wedi'i newid am Fwi rhif 1, a Bwi rhif 3 wedi'i newid am Fwi rhif 2.
- Y byddai trawsnewidydd arall yn cyrraedd yn 2023, a bod y Prif Swyddog Morwrol wedi cychwyn ar y trafodaethau gyda'r cwmni.
- Bod deifwyr wedi bod yn gwneud archwiliad tanddwr o angorfeydd yr harbwr dros y dyddiau diwethaf, ac wedi newid tua 48 o 'risers' yn barod. Roedd cost y gwaith yn sylweddol, ond enillwyd blwyddyn ychwanegol, gan na chyflawnwyd y math hwn o waith hwn llynedd, gan fod cyn lleied o ddefnydd o'r harbwr.
- Bod angen gwario swm sylweddol ar gwch y 'Dwyfor'. Roedd y gwasanaeth yn chwilio am brisiau ar gyfer y gwaith ar hyn o bryd, a gobeithid y byddai'r cwch yn dychwelyd i Borthmadog ymhen tua phythefnos.

Diolchwyd i'r swyddogion ac i staff yr harbwr am eu holl waith yn cynnal y gwasanaeth yn ystod blwyddyn eithriadol o anodd, a gofynnwyd i'r swyddogion basio'r neges yma ymlaen i bawb.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion a ganlyn:-

- Bod cludiant y trawsnewidydd o draeth Morfa Bychan i Drawsfynydd wedi gweithio'n arbennig o dda, ac wedi denu llawer o bobl yma, a bod y staff yn barod iawn i siarad gyda phobl a phlant, ac egluro beth oedd yn mynd ymlaen. Yr unig anhawster fu'r methiant i dorri'r coed ymlaen llaw, ac i hynny orfod cael ei wneud ar y diwrnod. Mewn ymateb, eglurwyd y bwriedid ymgynghori â'r pwyllgor harbwr a'r gymuned i sicrhau bod cludiant yr ail drawsnewidydd, fydd yn cyrraedd tua Mehefin 2023, yn mynd yn esmwyth, a'r tro nesaf, byddai'r gwaith o dorri'r coed yn digwydd tua wythnos ymlaen llaw.
- Cyfeiriwyd at bryderon a gododd llynedd fod badau dŵr personol a chychod pŵer yn mynd yn rhy agos at y traethau, yn enwedig ym Mae Samson, lle'r oedd pobl yn nofio yn y dŵr. Mewn ymateb, cytunwyd bod angen tynhau ar reolaeth cychod ym Mae Samson, ac ym Morfa Bychan a Chricieth, a rhoddwyd sicrwydd y byddai hynny'n digwydd yn 2021. Nodwyd ymhellach y cafwyd cefnogaeth i benodi mwy o wardeiniaid yr haf yma, ac y byddai tîm o 3 yn gweithio ym Morfa Bychan o'r 1af Ebrill ymlaen, gyda 9-10 yn ymuno gyda'r tîm wrth i'r tymor brysuro.
- Nodwyd bod y giât i atal y llanw rhag gorlifo dros faes parcio Borth y Gest yn gweithio'n dda, ond bod angen i bobl ddefnyddio synnwyr cyffredin, a pheidio cwyno ei bod wedi cau. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r staff yn agor y giât unwaith y byddai'r tywydd yn gwella a'i bod yn ddiogel i wneud hynny.
- Cyfeiriwyd at broblem a gododd llynedd gyda pharcio ar Lon Treflys yn achosi tagfeydd o Forfa Bychan yn ôl i Stryd Fawr, Porthmadog, a nodwyd bod trafodaethau ar y gweill gyda'r Adran Briffyrdd i gyflwyno llinellau melyn dwbl ar y darn yma o ffordd. Mewn ymateb, eglurwyd petai tagfeydd yn ffurfio ym Morfa Bychan eto eleni, bod gan y Cyngor gynllun i leihau'r broblem i'r pentref drwy ganiatau mynediad di-dâl i draeth Morfa Bychan nes bydd y tagfeydd wedi clirio. Nodwyd hefyd bod yr Heddlu wedi bod yn gefnogol iawn, yn gweithio fel rhan o'r tîm, ac yn dod i lawr i Forfa Bychan pan fyddai trafferthion yn codi.
- Nodwyd bod y twyni tywod ym Morfa Bychan yn iach, a bod lefel y traeth wedi codi'n sylweddol, gan greu pant mawr yn y fynedfa. Bwriedid clirio'r tywod cyn Gŵyl y Pasg er mwyn galluogi i draffig fynd ar y traeth.
- Cyfeiriwyd at y cydweithio rhwng adrannau Economi, Amgylchedd a Phriffyrdd Cyngor Gwynedd i geisio dygymod â niferoedd ymwelwyr yr haf hwn, a gofynnwyd i'r aelodau adael i'r Cyngor wybod os ydynt yn rhagweld problemau.

- Holwyd pa wersi a ddysgwyd o'r cyfnod anodd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb, nodwyd bod y cynllun rheoli cerbydau ym Morfa Bychan wedi gweithio'n dda, drwy gyfyngu cerbydau i un rhan o'r traeth yn unig, gan ryddhau gweddill y traeth i bobl gerdded, chwarae gemau, ac ati, yn ddiogel. Roedd hyn wedi hwyluso'r gwaith o fonitro'r traeth hefyd, ac roedd wedi lleihau'r broblem o gerbydau yn mynd yn sownd yn y tywod, ac yn cael eu colli i'r môr. Nid oedd cyfle i oryrru bellach chwaith, gan fod y cerbydau yn weddol agos at ei gilydd. Ychwanegwyd bod technoleg wedi helpu hefyd a gobeithid datgysylltu'r ffôn 999 ger y fynedfa i draeth Morfa Bychan, a'i gysylltu i lein BT cyflym, fyddai'n gallu derbyn taliadau electronig. Roedd y drefn o gofrestru cychod wedi newid hefyd, gyda chofrestriadau yn mynd ar lein yn unig, ac felly'n rhyddhau staff yn y canolfannau i wneud gwaith mwy ymarferol ar y traethau. Hefyd, yn sgil cydweithio gyda'r Adran Briffyrdd, bu cynnydd yn nifer y casgliadau ysbwriel ar y traethau, ac edrychwyd ar ailgylchu hefyd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y staff, a bu hyn yn gyfle i gryfhau'r timau am y tymor i ddod. Roedd y gwasanaeth yn gweithio ar dechnoleg hefyd i dynnu sylw at beryglon y môr.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd y byddai popeth yn barod ar gyfer codi tâl mynediad i draeth Morfa Bychan erbyn 1 Ebrill, ond bod hyn yn hollol ddibynnol ar beth fydd yn digwydd gyda'r cyfnod clo. Gan hynny, byddai'n rhoi cyfle i dreialu cyn i'r prysurdeb mawr gychwyn ym mis Mai.
- Nodwyd nad oedd criw Bad Achub Cricieth wedi cael y cyfle arferol i ymarfer dros y misoedd diwethaf, a bod angen i bobl sylweddoli na fydd y Bad Achub mor sydyn yn mynd allan gan fod rhaid dilyn y rheolau a gwneud yn siŵr bod y criw i gyd yn saff.

Erfyniodd y Cadeirydd ar yr aelodau i gysylltu â'r Cyngor os ydynt yn gweld unrhyw drafferthion yn codi dros yr haf, a nododd fod Gwynedd yn barod iawn i groesawu ymwelwyr sy'n dangos parch tuag at yr ardal.

**8. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Hydref, 2021.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.15 y.h.

____________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **5 Hydref 2021** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Bu 112 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Porthmadog yn 2021. Mae hyn yn cymharu â 64 yn 2020.

2.2 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwsmeriaid yn y flwyddyn ddiwethaf ym mhob un o'r harbyrau. Mae'r cynnydd yn nifer y cychod ar angorfeydd yn yr harbyrau yn adlewyrchu llacio graddol y cyfyngiadau cyfnod clo Coronafeirws yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

2.3 Y tymor hwn, rhoddodd y Gwasanaeth gyfle i aelodau'r cyhoedd gofrestru cychod pŵer ar-lein drwy wefan Cyngor Gwynedd.

2.3.1 Cafodd 748 o Fadau Dŵr Personol (*Jetskis*) eu cofrestru ar-lein.

2.3.2 Cafodd 516 o Gychod Pŵer eu cofrestru ar-lein.

2.4 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 1131 o Fadau Dŵr Personol a Chychod Pŵer ar bapur gan bobl a ymwelodd â sawl swyddfa forwrol ar draws Gwynedd, gan roi cyfanswm o 2395 o nifer y cychod a gofrestrwyd.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio.**

Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Porthmadog wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, gyda'r Harbwr-feistr, Mr Malcolm Humphreys yn cael ei gefnogi gan gymhorthydd harbwr llawn-amser, Mr Richard Hughes. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Porthmadog os oes angen.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r cwch 'Dwyfor'. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch er mwyn diwallu gofynion y Cod Ymarfer a chynnal y cyfarpar codi. Mae'r cwch wedi'i leoli'n barhaol yn harbwr Porthmadog i hwyluso'r gwaith o symud cymhorthion mordwyo yn Sianel Porthmadog.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.**

O ran ffïoedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffïoedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer 2022/23, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

**6. Adroddiad yr Harbwr-feistr.** Bydd Harbwr-feistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **5 Hydref 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwr-feistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwr-feistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr, yn bennaf, wedi bod yr un fath dros yr haf, ond gwelwyd y mynediad i'r sianel yn symud yn raddol tua chyfeiriad Harlech.

1.2 Bydd cwrs y sianel fordwyol yn parhau i gael ei monitro ac, os oes angen, gyda chaniatâd priodol gan Dŷ'r Drindod, bydd safle bwi Fairway yn cael ei newid tuag at Harlech er mwyn cyd-fynd yn well â'r sianel fordwyo tua'r môr.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol sy'n ymwneud â'r marciau mordwyo yn y sianel.

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 1/21. Ar hyn o bryd, nid yw cymhorthydd Mordwyo Starboard Bwi Rhif 3 ar safle 52° 53.177'N - 004° 09. 910'W ar ei safle priodol.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 18/21. Ar hyn o bryd, nid yw cymhorthydd mordwyo Starbord Bwi Rhif 5 ar safle 52° 53.786'N - 004° 09. 339'W ar ei safle priodol. Roedd rhaid symud y bwi penodol hwn o'r sianel ar ôl iddo gael ei ddifrodi gan wrthdrawiad, gan achosi i'r bwi suddo'n rhannol.

1.4 Ar ôl derbyn caniatâd gan Dŷ'r Drindod, cafodd cymhorthydd mordwyo ar gyfer bwi mordwyo Rhif 6 yn safle 52° 53.662'N - 004° 09. 509'W a chymhorthydd Starboard ar gyfer bwi mordwyo Rhif 11 yn safle 52° 54.449'N - 004° 08.965'W, eu comisiynu i'r gwasanaeth er mwyn cynorthwyo morwyr i groesi'r sianel yn ddiogel.

1.5 Bydd y Gwasanaeth yn derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Porthmadog a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod ar 27 Medi 2021. Bydd adroddiad ar eu canfyddiadau yn dilyn. Rhennir canlyniad yr adroddiad â'r Pwyllgor Harbwr ar ôl ei dderbyn.

1.6 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd, er mwyn derbyn y wybodaeth fordwyo a'r wybodaeth tywydd ddiweddaraf.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 **Tymor yr Haf:** Mae'r harbwr wedi gweld nifer sylweddol o ymwelwyr i'r ardal eleni, a achoswyd gan effaith cyfyngiadau coronafeirws ar deithio tramor. Mae staff yr harbwr wedi bod ar wyliadwriaeth gyson ar y lan ac ar y dŵr, i sicrhau diogelwch y bobl sy'n mwynhau'r amgylchedd, gyda phatrolio rheolaidd yn cael eu gwneud yn Sianel Porthmadog.

2.1.1 Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr i'r ardal yn parchu amgylchedd yr harbwr, roedd cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau o staff yn dioddef camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr ac anwybodaeth ambell unigolyn o epidemig presennol Coronafeirws hefyd wedi bod yn bryder.

2.1.2 Mae'r maes parcio tu ôl i swyddfa'r harbwr wedi dangos bod cyfnod yr haf wedi bod yn brysur gyda chyfartaledd incwm o £700.00 yr wythnos, mewn ardal barcio sy'n gymharol fach.

2.2.1 **Mv Dwyfor:** O ganlyniad i waith atgyweirio strwythurol a mecanyddol angenrheidiol, mae'r cwch harbwr, 'Dwyfor', wedi bod yn segur am ran helaeth o'r tymor.

2.2.2 Er mwyn i'r cwch gydymffurfio â deddfwriaeth cwch gweithio bresennol, roedd angen gosod pared blaen newydd rhwng bae'r injan ac adran y cargo. Roedd y cwch hefyd angen prif ddec newydd, gan gynnwys gosod strwythurau cefnogi mewnol y tu ôl i'r caban llywio, i bwynt tu ôl i fae'r injan. Cafodd y gwaith ei wneud mewn iard gychod leol ym Mhwllheli.

2.2.3 Er mwyn gwneud y gwaith strwythurol, roedd angen tynnu'r injan o'r cwch. Yna, cafodd gwaith cynnal a chadw'r injan ei wneud gan gwmni peirianneg forol lleol ym Mhwllheli, a gyflenwodd a ffitiodd siafft yrru newydd hefyd yn lle'r siafft bresennol oedd wedi gwisgo.

2.2.4 Bellach, mae'r cwch wedi dychwelyd i wasanaethu gyda'r gwaith helaeth ar y cychod wedi'i gwblhau ar gyfanswm cost o £15,212.53 i'r Gwasanaeth.

2.2.5 Yn ystod absenoldeb cwch 'Dwyfor', defnyddiwyd cefnogaeth contractwr allanol i gynorthwyo i symud y marciau mordwyo yn ôl yr angen.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Gwnaed gwaith archwilio a chynnal a chadw i'r angorfeydd yn yr harbwr ar ddechrau mis Ebrill er mwyn galluogi i gontractwr yr angorfeydd amnewid unrhyw gyfarpar oedd wedi gwisgo. Canfuwyd bod angen amnewid cyfanswm o chwe deg chwech (66) cadwyn godi, ynghyd â sawl bwi angori a gafodd hefyd eu hamnewid. Cyfanswm cost y gwaith i'r Gwasanaeth oedd £4740.00

3.2 Mae tiroedd yr harbwr, gan gynnwys ymylon glaswellt a'r gwrychoedd, wedi cael eu cynnal a'u cadw drwy gydol y cyfnod prysur. Gyda chytundeb aelodau'r Ganolfan, staff yr harbwr sydd bellach yn cynnal a chadw'r ymylon glaswellt sy'n ffinio â llwybr cerdded yr harbwr sydd gyferbyn â wal y Ganolfan ar ochr yr harbwr. Yn ogystal, mae llithrfa'r harbwr hefyd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.

3.3 Bydd yr harbwr-feistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw sydd i'w chwblhau yn harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod mis Hydref 2021 - mis Chwefror 2022. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

## H 4 Materion Eraill

4.1 **Papur Ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth**: Dymuna'r Gwasanaeth ddod a phapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth, "*Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft*" i sylw aelodau'r Pwyllgor. Yn ei hanfod, mae'r papur ymgynghori yn cynnig newid deddfwriaeth i ddod â badau dŵr hamdden a phersonol i mewn i sgôp Deddf Llongau Masnach 1995 er mwyn sicrhau ymarfer diogel. Mae'r ddogfen ar gael i'w gweld ar wefan llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy ddilyn y ddolen isod:

www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft

4.1.1 Dylid anfon unrhyw sylwadau at maritimesafety@dft.gov.uk.

4.1.2 Mae'r ymgynghoriad yn cau am 11:45pm ar 1 Tachwedd 2021.

4.2 **Meinciau'r Harbwr:** Mae meinciau o gwmpas amgylchedd yr harbwr wedi cael eu hadnewyddu, gyda gwaith pellach i'w gwblhau. Mae'r gwasanaeth dal yn derbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr ac ym Mhorth-y-Gest ond dim ond llefydd cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu'r mater ac o ganlyniad, nid oes unrhyw geisiadau pellach yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

4.3 **Glanhau Traethau:** Mae'r Gwasanaeth yn dal yn ddiolchgar am y cymorth y mae wedi'i dderbyn gan grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi ymgymryd â gweithgareddau glanhau traethau ar draeth y Graig Ddu gerllaw.

4.4 **Is-ddeddfau Harbwr.** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio ar ddiweddaru Is-ddeddfau harbwr Porthmadog ar y cyd ag Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Er bod nifer o gwmnïau ffilm a theledu wedi ymweld â'r ardal o amgylch yr harbwr a Thraeth y Graig Ddu gerllaw, cafodd digwyddiadau oedd wedi'u trefnu i gael eu cynnal yn yr harbwr eleni eu canslo oherwydd effeithiau parhaus pandemig Coronafeirws.

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*

## *Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations*

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 | 52 | 73 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 | 55 | 43 Total Boat Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 70 | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 845 |
| 2021 | 16 Aberdyfi | 65 | -- | 142 Hafan | 217 | 78 Abersoch<br>7 Machroes<br>11 Nefyn | -- | -- |

*** Nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys y rhai sydd wedi cofrestru ar y ffos ***

# ***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer/ Llai na 10hp - Total number of Powerboat Registrations/ Less than 10hp***

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli Harbour | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total<br>Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 46 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 179 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 152 | 835 |
| 2021 | 48 Aberdyfi | 64 | 2 | 168 Hafan | 26 | 105 Abersoch<br>39 Machroes<br>66 Nefyn | 99 | -- |

***** Nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys y rhai sydd wedi cofrestru ar y ffos *****

# Uned Morwrol / Maritime Unit

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| *Aberdyfi 2020* | *120* | *47 (39.2%)* | *23 (48.9%)* | *24 (51.1%)* |
| ***Aberdyfi 2021*** | ***120*** | ***76 (63.3%)*** | ***34 (44.7%)*** | ***42 (55.3%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| *Abermaw 2020* | *140* | *31 (22.1%)* | *24 (77.4%)* | *7 (22.6%)* |
| ***Abermaw 2021*** | ***140*** | ***45 (32.1%)*** | ***31 (68.9%)*** | ***14 (31.1%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| *Porthmadog 2020* | *238* | *64 (26.9%)* | *30 (46.9%)* | *34 (53.1%)* |
| ***Porthmadog 2021*** | ***238*** | ***112 (47.1%)*** | ***42 (37.5%)*** | ***70 (62.5%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| *Pwllheli 2020* | *81* | *50 (61.7%)* | *36 (72%)* | *14 (28%)* |
| ***Pwllheli 2021*** | ***81*** | ***50 (61.7%)*** | ***36 (72%)*** | ***14 (28%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| *Hafan 2020* | *409* | *288 (70.4%)* | *40 (13.9%)* | *248 (86.1%)* |
| ***Hafan 2021*** | ***409*** | ***378 (92.4%)*** | ***77 (20.4%)*** | ***301 (79.6%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| *Doc Fictoria 2020* | *100* | *90 (90%)* | *22 (24.4%)* | *68 (75.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2021*** | ***100*** | ***89 (89%)*** | ***21 (23.6%)*** | ***68 (76.4%)*** |
| | | | | |

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig*

## Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 20 | 120 | 47 | 44 | 3 | 93.6% Pwer<br>6.4% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 21** | **120** | **76** | **66** | **10** | **86.8% Pwer<br>13.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 20 | 140 | 31 | 21 | 10 | 67.7% Pwer<br>32.3% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 21** | **140** | **45** | **32** | **13** | **71.1% Pwer<br>28.9% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer<br>67.7% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 20 | 238 | 64 | 22 | 42 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 21** | **238** | **112** | **30** | **82** | **26.8% Pwer<br>73.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 20 | 81 | 50 | 23 | 27 | 46% Pwer<br>54% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 21** | **81** | **50** | **26** | **24** | **52% Pwer<br>48% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer<br>55.5% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 20 | 409 | 288 | 140 | 148 | 48.6% Pwer<br>51.4% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 21** | **409** | **378** | **192** | **186** | **50.8% Pwer<br>49.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 20 | 100 | 90 | 26 | 64 | 28.9% Pwer<br>71.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 21** | **100** | **89** | **26** | **63** | **29.2% Pwer<br>70.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| Cyfanswm 20 | 1088 | 570 | 276 | 294 | 48.4% Pwer<br>51.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 21** | **1088** | **746** | **371** | **375** | **49.7% Pwer<br>50.3% Hwylio** |


# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2021
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2021


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **45** | **314.81** | **7.00** | **42.36** | **0.94** |
| **Aberdyfi** | **76** | **487.32** | **6.41** | **48.82** | **0.64** |
| **Porthmadog** | **112** | **902.60** | **8.06** | **111.13** | **1.01** |
| **Pwllheli** | **50** | **361** | **7.2** | **42.0** | **0.84** |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | **283** | **2065.73** | **28.67** | **244.31** | **3.43** |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | **70.75** | **516.43** | **7.17** | **61.08** | **0.86** |


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.












# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 129 | 135 | 131 | 130 | 64 | 112 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total Overall Length | 1055.12 | 1098.58 | 1055.13 | 1030.04 | 511.93 | 902.60 |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 8.18 | 8.14 | 8.05 | 7.92 | 8 | 8.06 |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 127.50 | 133.18 | 131.01 | 128.80 | 63.59 | 111.13 |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.99 | 0.99 | 1.00 | 0.99 | 0.99 | 1.01 |





Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
12/09/2021
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 FLR 4s
Cwt powdr
Powder house
11 FLG5 20s
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
9 FLG 4 15s
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
4 FLR 2 5s
2 QFLR
1 QFLG
N
FAIRWAY
LFL W 10s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation